Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 19 Medi, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Sion<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROS OLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | ADRODDIAD PERFFOMRIAD AELOD CABINET OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng. / Cllr W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 4 - 13 |
| 6 | TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION | Cyng. Pererdur Jenkins | Dafydd Edwards | 14 - 21 |
| 7 | BLAEN RAGLEN Y CABINET | Cyng / Cllr. Dyfrig Siencyn | | 22 - 24 |
| 8 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD | | | 25 |
| 9 | TIR YN LLANRUG | Cyng. Dafydd Meurig | Dafydd Gibbard | |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i'r Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 19 Medi, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Roberts |
| **Swyddog Cyswllt:** | Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679 468 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli Adrannol.

1.3 Ar y cyfan rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant, o'm rhan y gwasanaethau sydd o dan fy nghyfrifoldeb i



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. **Prosiectau'r Cynllun Strategol**

4.1.1. Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2017-18.

4.2. **G1 Her Gofal - Ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.**

4.2.1 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf llwyddwyd i ddatblygu 'stori' yr Her Gofal, sef y cefndir, y cyd-destun a'r rheswm dros newid. Cyfathrebwyd y stori ac ymgysylltwyd gyda rhan ddeiliaid. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau i drafod yr her. Mae natur barhaus a heriol y prosiect hwn yn golygu ein bod yn ceisio adeiladu ar y camau llwyddiant o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gwella o hyd dealltwriaeth pobl Gwynedd o'r her sydd yn ein hwynebu serch hynny anodd iawn yw mesur llwyddiant y prosiect yma.

4.2.2 Fel y disgwyl nid ydym mewn gwirionedd wedi dechrau profi effaith y prosiect hwn eto ond yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac wrth sefydlu a datblygu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) yn benodol, rhagwelwn gyfraniad sylweddol tuag at yr agenda ataliol fydd yn ei dro yn cyfrannu yn gadarnhaol at alluogi trigolion y Sir i fyw eu bywydau fel maent yn dymuno ac yn cyfrannu at allu'r Cyngor i gyfeirio adnoddau at y gwasanaethau sydd eu hangen.

4.2.3 Ers y tro diwethaf i mi adrodd mae nifer sesiynau ymgysylltu wedi eu cynnal gyda staff yr Adran a hynny er mwyn rhannu syniadau a chasglu eu barn am y math o wasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) y dylwn fod yn anelu tuag ato i'r dyfodol. Mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus o ran y niferoedd sydd wedi cyfrannu, adborth a gafwyd a, thrwy hyn gobeithio, sicrhau perchnogaeth i'r rhaglen waith.

4.2.4 Bydd ffrydiau gwaith penodol yn deillio o'r sesiynau a gynhaliwyd yn ystod mis Mehefin ac mae'r Adran yn y broses o grynhoi'r prif negeseuon a chynnig argymhellion clir ynglŷn â'r ffordd ymlaen dros y misoedd nesaf. Rydym yn barod yn cynnig gwybodaeth a chefnogaeth yng Ngwynedd ond bydd yn her i addasu i gynnig gwasanaeth IAA o safon i bobl Gwynedd. Bydd yr Adran yn asesu mewn amser i sicrhau bod hyn yn digwydd. Rwyf hefyd wedi pwysleisio'r angen i gyd weithio gydag Iechyd ar y gwasanaeth IAA. Er mai disgwyliad y Ddeddf ar y Bwrdd Iechyd yw 'darparu gwybodaeth' rwyf o'r farn, gan gyd

weithio gydag Iechyd, bydd gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn cynnig potential i fod yn wasanaeth cymaint gwell.

**4.3 G2 Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion - Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.**

4.3.1 Mae cytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd o ran sefydlu strwythur i weithio'n integredig yn y maes pobl hyn yn ei le. Mae swyddi arweiniol allweddol yn y maes gofal o fewn y pum ardal wedi eu llenwi yn ystod Mis Mai a Mehefin. Mae un o'r ddwy swydd Arweinyddion Trawsnewid hefyd wedi ei llenwi ddechrau Gorffennaf ac mae trafodaeth ar y gweill gyda'r Bwrdd Iechyd o ran addasu'r ail swydd. Gyda'i gilydd, y swyddogion yn y swyddi uchod ynghyd a'r Uwch Reolwr Oedolion ac arweinwyr y timau nyrsio cymunedol fydd yn arwain a chodi momentwm y newid yn y ffordd o weithio ar draws y Sir gyfan.

4.3.2 Dros y misoedd nesaf, bydd timau o staff y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn trosglwyddo mewn i'r strwythur newydd ardal. Mae sesiynau hyfforddiant wedi eu cynnal i'r timau newydd ac mae lleoliadau gwaith yn cael eu haddasu. Bydd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn asesu'r cynnydd a wneir o'r gwaith integredig yn barhaus ac yn argymell addasiadau os yn briodol pan fo angen hynny.

4.3.3 Mae'r broses ail strwythuro yn cynnig cyfloed i ymarfer mewn ffordd arloesol ac i gynnig gwell gwasanaeth i bobl Gwynedd. Ond i wneud hyn rydym yn gofyn i ein gweithlu i newid eu ffyrdd cyfredol o weithio. Mae hyn yn naturiol yn cynnig dipyn o her i'n gweithlu ac i'r perwyl hyn mae ar adegau yn cael effaith ar moral staff. Rwyf yn falch o fedru dweud bod y cyfnod yma o ansicrwydd yn dod i ben gyda'r strwythur newydd yn ei le, a fy mod yn hyderus y bydd y gweithlu yn elwa o'r sefydlogrwydd yma. Wrth ddweud hyn, byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa yma dros y misoedd nesaf.

**4.4 G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant - Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.**

**4.4.1** Gyda'r gwaith o sefydlu'r strwythur adrannol i gyflawni prosiect G2 yn agosáu at ei derfyn a'r Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd ar fin cael ei sefydlu, ystyrir bod y cynllun hwn wedi ei gwblhau ar wahân i fan addasiadau. Bydd yr Adran yn gweithredu newidiadau pellach i'r strwythur staffio os oes cyfleoedd datblygol yn codi neu gyfleoedd i weithio yn fwy effeithlon. Dylid nodi nad oedd rhannau o'r Adran, megis y Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn rhan o'r prosiect gwreiddiol. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i addasu yn y maes hwn os bydd angen yn cael ei adnabod yn dilyn trafodaethau i gryfhau trefniadau integreiddio presennol gyda'r Bwrdd Iechyd.

**4.5 G4 Tai Gofal Ychwanegol – Adeiladau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.**

4.5.1 Mae'r amserlen adeiladu Tai Gofal Ychwanegol Hafod y Gest wedi llithro oherwydd diffyg bricwyr, ac mae cwmni Annwyl wedi datgan bydd y datblygiad wedi ei gwblhau diwedd Mis Ebrill 2018. Oherwydd yr oedi, ni fydd y fflatiau arddangos yn barod tan fis Tachwedd eleni. Mae polisi gosod yn bodoli gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i drigolion dalgylch Porthmadog. Mae 50 o geisiadau eisoes wedi ei derbyn hyd yn hyn ar gyfer y cynllun gan bobol leol gyda lle ar gyfer 40 o breswylwyr.

**4.6 G5 Frondeg – Sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.**

4.6.1 Yn Ionawr 2016, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu ac ymgynghoriad ffurfiol, penderfynwyd datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ar safle Frondeg, a dod a defnydd presennol yr adeilad i ben unwaith y byddai'r datblygiad newydd ar gael. Mae'r Ymgysylltu gyda'r prif fudd-ddeiliaid wedi cymryd lle ar y cynlluniau drafft. Bydd cyfarfodydd pellach yn cael eu trefnu gyda'r holl fudd-ddeiliaid cyn i'r cynlluniau terfynol fod yn barod. Mae Grŵp Cynefin wedi rhannu amserlen sydd yn nodi eu bod yn bwriadu cyflwyno cais cynllunio mis Hydref 2017, gyda gwaith yn cychwyn ar y safle tua mis Mai 2018 ac i'w gwblhau rhwng Mai/Medi 2019.

4.6.2 Rwyf wedi pwysleisio gyda'r Adran yr angen i sicrhau bod defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn chwarae rhan wrth ddatblygu eu cartrefi newydd. Er na fydd hwn yn dasg hawdd gan ystyried anghenion dwys rhai o'n defnyddwyr, rwyf yn awyddus iawn i ni fel Cyngor i ddatblygu cyfleoedd a phrofiadau i'n defnyddwyr fod yn rhan o'r datblygiad yma a gallaf gadarnhau bod yr Adran yn mynd i ymchwilio mewn i hyn.

**4.7 G6 Darpariaeth fewnol – Penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaethau gofal) a gweithredu ar hynny.**

4.7.1 Mae penderfyniad wedi ei wneud i roi'r gwaith yma o'r neilltu am o leiaf 2 flynedd (Hydref 2018) er ystyried opsiynau ehangach i'r Cyngor a'i bartneriaid mewn marchnad sydd yn newid ac yn fregus ac yn ôl pob golwg am fynd fwy a fwy bregus i'r dyfodol.

**4.8 G7 Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – Ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hyn yn benodol.**

4.8.1 Mae gwaith ar Ran 1 prosiect Llys Cadfan wedi ei gwblhau ac mae unigolion yn dechrau symud i'r Uned Dementia Cynnar newydd yno. Rydym yn hyderus y bydd y ddarpariaeth newydd rhan 2 o'r cynllun mewn lle erbyn Medi 2017 ar gyfer gwella gwasanaethau arbenigol ac ysbaid yn Ne'r Sir. Mewn cydweithrediad gyda'r Bwrdd Iechyd, mae cynlluniau ar gyfer buddsoddi mewn gwelyau dementia cynnar yn cael eu datblygu ar gyfer 3 lleoliad arall ar draws y Sir. Y gobaith yw y gellir sicrhau buddsoddiad o gronfa ICF i weithredu o leiaf un o'r cynlluniau yma, fyddai yn cyfateb i fuddsoddiad rhan 1 Llys Cadfan, yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18. Byddwn yn gwybod am ganlyniad y broses bidio am arian ICF erbyn Mis Medi 2017.

4.8.2 Mae recriwtio i'r gweithlu gofal a nyrsio yn parhau yn hynod heriol. Mae ymdrechion i ddenu a chadw gweithwyr yn parhau ac yn cael eu dwysau. Yn anffodus nid ydym yn gweld digon o lwyddiant i lenwi'r bylchau hyd yma ac felly mae'r newid rhy araf i gynorthwyo yn y tymor byr. Nid yw hyn yn broblem leol, mae hi'n broblem Genedlaethol. Fel enghraifft, cafwyd cais yn ddiweddar gan Gyngor Sir Ceredigion yn gofyn am gymorth wrth iddynt hefyd ceisio ymdrechu i ddenu gweithlu gofal. Rydym am barhau gyda'n trafodaethau gyda Cheredigion i weld ble gallwn ddysgu neu rannu arferion da yn y maes recriwtio staff gofal.

4.8.3 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Consortiwm Addysg Ôl 16 Gwynedd a Môn er mwyn ymateb i faterion recriwtio. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i'r meysydd 'anodd ei recriwtio' yn ystod ymgyrchoedd recriwtio i'r dyfodol. Mae'r gallu i ddenu darpar ymgeiswyr nyrsio yn un o'r heriau mwyaf i'r sefydliad ac mae cynlluniau mewn lle i weithio mewn ffordd fwy llyfn, ac agwedd fwy cydweithredol wrth recriwtio nyrsys.

4.8.4 Gyda newidiadau deddfwriaethol eraill o ran cofrestru'r gweithlu yn dod i rym, rhagwelir y bydd cyflawni'r nod o ddenu a chadw'r gweithlu gofal ac iechyd yn parhau am gryn amser eto. Mae'r sector breifat hefyd yn wynebu trafferthion tebyg ac mae gwaith ar y gweill ar sefydlu 3 cynllun peilot ar y cyd gyda darparwyr i arbrofi gyda dulliau newydd o weithio. Y gobaith ydi y bydd hyn dros amser yn ein galluogi i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi ffocws ar amcanion yr unigolion ac sydd yn fwy effeithlon a fydd yn eu tro yn cyfrannu at ein gallu i leihau bylchau gofal/cyfnodau aros am wasanaeth/dychwelyd i'r cartref i drigolion bregus y Sir.

4.8.5 **Gofalwyr** - Mae gwaith wedi cychwyn i weld os yw ein trefniadau a'n sefyllfa gyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r Ddeddf yn parhau. Mae camau wedi eu cymryd i ymgorffori gwaith cefnogi'r gofalwyr yn yr agenda Llesiant/ataliol. Mae un o swyddogion yr Adran yn arwain a chydlynu gwaith yn rhanbarthol i gefnogi gofalwyr, a bydd hynny yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r sefyllfa a'r gallu i gryfhau'r ddarpariaeth leol ar sail gwybodaeth gadarn. Byddwn yn parhau i ofyn am farn swyddogion proffesiynol, gofalwyr yng Ngwynedd a phencampwyr y maes er mwyn ystyried os yw ein trefniadau yn addas. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i benderfynu os oes sail i gomisiynu prosiect neu brosiectau penodol i gefnogi gofalwyr di-dâl a/neu sut i wneud defnydd gwell o wasanaethau IAA ac ataliol.

4.8.6 Mae'r Adran yn rhoi trefniadau newydd yn eu lle i gefnogi gofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl oherwydd adborth nad oedd y gwasanaeth yn effeithiol. Mae dau weithiwr cefnogol mewnol wedi cymryd y gwaith ac mae'r adborth cynnar am eu cefnogaeth i'r gofalwyr hyn yn gadarnhaol iawn. Rydym hefyd wedi cael adborth cadarnhaol iawn am ein cynllun cardiau argyfwng gofalwyr ac mae Cynnal Gofalwyr wedi dechrau hysbysebu'r cynllun hefyd.

4.8.7 **Llesiant -** Mae llesiant yn greiddiol i holl waith yr Adran, a dros y misoedd nesaf mae'r Adran yn adrodd bydd mwy o ffocws ar yr agenda llesiant. Mae gweithgareddau llesiant yn digwydd ar draws y Sir ar wahanol lefelau a gan wahanol fudiadau. Wrth symud i weithio o fewn y 5 ardal bydd cyfleoedd yn codi i adnabod gweithgareddau o few ein hardaloedd ac yn adnabod ymarfer da. Rwyf yn deall gan yr adran bod cynlluniau ar y gweill i wneud ceisiadau ariannol er mwyn rhoi'r flaenoriaeth angenrheidiol sydd ei angen i'r maes yma. Edrychaf ymlaen at gael ei diweddaru dros y misoedd nesaf.

## 5. **Mesurau Perfformiad**

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 Mae'r mesur **OED23** yn rhoi gorolwg cyffredinol ar y cyfeiriad mae'r adran yn mynd, er dal yn ddatblygol mewn natur mae'r mesur yn adnabod shifft bositif mewn cyflawni'r 'hyn sydd yn bwysig' i bobl hyn ac anableddau corfforol. Yn gyffredinol mae **OED 23, Canran o bobl hyn ag anableddau corfforol lle gweler**

**cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig**, yn **90%.** Wrth ddweud hyn mae **1485** sgyrsiau 'Hyn Sy'n Bwysig' wedi digwydd ers cychwyn y fframwaith newydd. O'r sgyrsiau yma mae 747 wedi sefydlu gwaelodlin a **253** wedi ei adolygu. Mae'r perfformiad **90%** yn adlewyrchu perfformiad yn dilyn adolygu'r **253** achos sydd ddim yn adlewyrchiad clir gan gysidro bod **1484** o sgyrsiau wedi digwydd. Mae'r adran yn cydnabod bod dal peth gwaith angen digwydd ar y mesur yma yn ogystal â pharhau gyda'r hyfforddiant 'Collaborative Conversations'. Hyderaf y byddwn yn gweld cynnydd yn y niferoedd sydd wedi cael eu hadolygu dros y misoedd nesaf ac yn gweld gwell gwerth i'r mesur yma. Credaf ein bod ar y trywydd iawn gyda'r mesur yma.

5.3 Gyda'r mesur **OED24,** mae **80%** o **Gleientiaid Anabledd Dysgu wedi gweld gwelliant yn yr hyn sy'n bwysig.** Gwelwn batrwm tebyg gyda niferoedd llai wedi sefydlu gwaelodlin a'r niferoedd o achosion sydd wedi eu hadolygu, ond mae'r uned yn mynd ati i sefydlu gwaelodlin ar bob un cyfle. Mae her i osod gwaelodlin ar unigolion sydd heb capasiti ac mae'r uned o dan yr amgylchiadau yma yn gwneud defnydd o eiriolaeth. Mae angen dwyn mewn cof yn ogystal bod natur cymhleth rhai achosion sydd yn agored i'r uned, bod cynnydd yn gallu cymryd blynyddoedd ond o dan yr amgylchiadau yma mae'r adran yn adnabod yr achosion ac yn craffu i weld ble gallwn ddylanwadu arno. Mae'r uned i'r dyfodol yn mynd i ddatblygu mesurau sydd yn mesur 'Ansawdd Bywyd'.

5.4 Mae pryder yn parhau gyda'r **Gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed (SCA/001).** Mae'r nifer oediad mewn trosglwyddo yn **0.71** sydd yn cymharu yn dda gyda gweddill Cymru sydd gyda pherfformiad o **0.75.** Ond wrth edrych ar berfformiad gweddill Gogledd Cymru rydym yn perfformio yn llai llwyddiannus gyda Chonwy yn adrodd **0.07**, Dinbych yn **0.10** a Fflint yn **0.24.** Er mai cip lun diwrnod yw'r ffigyrau yma mae angen deall pam bod yr ardaloedd yma yn perfformio llawer iawn yn well ac rwyf wedi gofyn i'r adran ymchwilio fewn i hyn. Er ei fod yn anodd cymharu ardal wrth ardal mae'n bwysig ein bod yn adnabod unrhyw wersi sydd i'w ddysgu.

5.5 Yn ogystal i'r gwaith yma, mi fydd y Cabinet yn ymwybodol o raglen waith 'week in a room' sydd yn ceisio ymateb i'r uchod. Mewn cydweithrediad gyda'r Bwrdd Iechyd rydym wedi adolygu'r system ofal ac iechyd, a hynny drwy ddilyn achosion o'r dechrau i'r diwedd a cheisio creu system sydd yn gweithio'n well i gleifion gan ddileu'r rhwystrau sydd yn codi i bobol. O ganlyniad i'r gwaith yma bydd ffordd newydd o weithio yn cael ei beilota yn Ysbyty Gwynedd ac edrychaf ymlaen yn fawr at ganlyniadau'r gwaith arloesol yma a byddaf yn eich diweddaru yn fuan.

5.6 Byddwch yn ymwybodol bod gwella mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl yn flaenoriaeth i'r Cyngor a gwelwch yn **Atodiad 1** bod mesurau Iechyd Meddwl angen eu datblygu. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi datblygu strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer pob oedran : 'Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl Gogledd Cymru'. Mi fydd ystod o fesurau penodol yn cael eu darparu gan y bwrdd er mwyn gwella ansawdd, argaeledd a mynediad at wasanaethau Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru. Y bwriad yng Ngwynedd yw datblygu mesurau sydd yng nghyd fynd a'r strategaeth yma.

5.7 Mae sefydlu'r uned Diogelu a Sicrwydd Ansawdd yn galluogi'r Cyngor i ymateb yn llawer mwy effeithiol i ofynion newydd a chynyddol sydd o fewn y maes diogelu oedolion. Wrth ddweud hyn gwelwn beth lithriad ym mherfformiad

**SCA/019 O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r peryg wedi'i reoli**, mae'r peryg wedi ei reoli **94%** o'r amser. Rwy'n deall mae'r rheswm tu ôl i'r perfformiad yw bod 3 unigolyn wedi gwrthod ymyrraeth yn ystod y cyfnod.

5.8 Mae'n galonogol gweld ein bod yn parhau i weld cynnydd yn y mesur **PMA/20b Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi - ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach** sydd yn **90%.** Yn ogystal mae'r mesur **PMA/20a Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach** hefyd ar y trywydd cywir ac yn **92%.**

## 6. Sefyllfa Ariannol/ Arbedion

6.1 Mae adroddiad Cyfrifon Terfynol 2016/17 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 6 Mehefin 2017 yn cadarnhau tanwariant adrannol am y flwyddyn. Mae'r tanwariant yma yn ganlyniad i newid y ffordd o weithio a chyflawni o fewn cyd-destun y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

6.2 Y ddamcaniaeth gyda nifer o'r cynlluniau arbedion, yng nghyd-destun trefniadau gwaith 'systems' yw y dylai cyflawni ar yr ochr ariannol ddilyn yn lled naturiol o'r gwaith trawsnewid. Er nad yn dystiolaeth sydd yn rhoi sicrwydd llwyr, mae'r wybodaeth gefndir yn awgrymu bod canlyniad hyn eisoes i'w weld ar draws y Sir yn benodol yn deillio o'r gwaith integreiddio yn ardal Eifionydd ac sydd bellach i'w weld yn egnïo a datblygu ar draws y Sir. Mae hyn ynghyd â gweithredu newidiadau cyffredinol er cyfarfod gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, yn arwydd cadarnhaol fod lleihad yn y nifer o becynnau gofal sy'n cael eu comisiynu a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yng ngwariant yr Adran. Wrth gwrs gall newid demograffeg i'r dyfodol yn ogystal â chynnydd mewn anghenion gofal mwy dwys a chymhleth ddylanwadu ar beth fydd ei angen yn y dyfodol.

6.3 Mae'r dull presennol o fonitro cynnydd mewn gwireddu'r cynlluniau arbedion unigol yn awgrymu bod amrediad o gynlluniau 2017-18 yn llithro, ac arbedion gwerth £179,100 wedi llithro o'r flwyddyn 2016/17.

6.4 Ar sail yr hyn y cyfeirir ato yn 6.2 uchod, mae'r Pennaeth Adran dros y misoedd diwethaf wedi bod yn ystyried ail strwythuro a rhesymoli'r rhaglen o gynlluniau arbedion a gyflwynwyd yn wreiddiol ac rwy'n gefnogol iawn o'r cyfeiriad yma. Mae llawer wedi newid yn y maes gofal yn genedlaethol ers i'r rhaglen gael ei chyflwyno a hynny yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol a newidiadau ym mlaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran canllawiau a chynlluniau ariannu. Mae'r darlun ehangach yma, ynghyd a chryn addasiadau yn y ffordd y mae'r Adran yn gweithio ar lefel lleol dros y ddwy flynedd diwethaf, yn golygu bod y rhaglen wreiddiol bellach yn cymhlethu'r ymdrechion i gyflawni arbedion ochr wrth ochr a thrawsnewid gwasanaethau'r Adran.

6.5 Y nod yw cyfuno amryw o'r cynlluniau hanesyddol yma ar sail themâu ac i gynnig rhaglen ddiwygiedig sydd yn:

- Ategu'r rhaglen trawsnewid o fewn yr Adran
- Symleiddio'r broses adrodd
- Rhyddhau amser staff i gyflawni gwaith llinell flaen ar gynlluniau trawsnewid fydd yn arwain at arbedion

- Cynnwys cynigion amlinellol ac addasiadau i'r rhaglen all wneud cyfraniadau pellach at lenwi'r bwlch er cyflawni'r targed arbedion a osodwyd.

6.6 Mae'r cynigion terfynol ar fin cael eu cyflwyno er ystyriaeth a pe baent yn derbyn cymeradwyaeth, rwyf yn hyderus bod yr Adran ar y cyfeiriad cywir ac mewn sefyllfa i symud yn ei blaen a gwireddu'r arbedion sy'n deillio ohonynt.

6.7 Rwyf yn ystod yn cyfarfod adrannol wedi pwysleisio'r angen i wireddu'r arbedion hyn, gan hefyd ystyried meysydd arbedion posib yn y blynyddoedd i ddod. Er nad yw'n neges hawdd, hwn yw'r realiti ac yn neges sydd angen sylw pawb.

6.8 O ran sefyllfa'r gyllideb, roedd yr adroddiad "Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adnabod Risgiau Cynnar" a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 18 Gorffennaf 2017 yn awgrymu y byddai'r Adran yn gorwario £147k yn ystod y flwyddyn. Byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth Adran i gymryd camau priodol i geisio sicrhau fod yr Adran yn gweithredu o fewn ei darpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1 Dim i'w nodi

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwyf yn fodlon fod cynnwys yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa ariannol. Fel mae'r adroddiad yn ei gydnabod, mae'r Adran wedi wynebu cryn her i wireddu ei gynlluniau arbedion, sy'n cynnwys cynlluniau sydd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol. Rwyf felly'n croesawu ymdrechion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i adnabod ffyrdd amgen o wireddu'r arbedion angenrheidiol, a bydd swyddogion o'r Adran Gyllid yn cefnogi'r Adran wrth i'r gwaith yma fynd rhagddo.

### 8.2. Barn yr Aelod Lleol:

8.2.1 Dim yn fater lleol.

### 8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Mesurau Perfformiad |

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **OED23** | Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd a Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | 88% | 90% |
| **SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. * | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 4.44 | 0.71 |
| **OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | 54% | 45% | 55% | | 90..40 |
| **SCA/002a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 46<br>(4.6%) | 45<br>(4.5%) | 43<br>(4.3%) | 42<br>(4.2%) | 43<br>(4.3%) |
| **SCA/002a** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 79<br>(7.9%) | 78<br>(7.8%) | 73<br>(7.3%) | 74<br>(7.4%) | 84.5<br>(8.4%) |
| **SCA/002b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. * | 26<br>(2.6%) | 24<br>(2.4%) | 23<br>(2.3%) | 22<br>(2.2%) | 22<br>(2.2%) |
| **SCA/002b** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac eithrio rhai sy'n hunan ariannu. * | 20<br>(2.0%) | 18<br>(1.8%) | 17<br>(1.7%) | 16<br>(1.6%) | 22<br>(2.2%) |
| **SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli | 96% | 100% | 97% | 100% | 94% |
| **SCA/019** *LLEOL* | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99% | 100% | 91% |

**Gofal - SCA/002a** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau mwy ataliol eu natur e.e. Teleofal a Galluogi. Mae'r mesur yn cynnwys yn unig y gwasanaethau traddodiadol e.e. Gofal Cartref. Er mwyn cael darlun llawn o'r bobl hynny sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref, mae fersiwn lleol o'r mesur wedi cael ei greu (**SCA/002a** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/002b** - Mae'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r 'hunan arianwyr' sydd yn byw yng Nghartrefi Preswyl y Sir. Mae gan Wynedd nifer o gartrefi mewnol o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cyfri 'hunan arianwyr' yn gallu drysu'r sefyllfa wrth gymharu'n genedlaethol. Mae fersiwn lleol wedi ei greu ar gyfer eithrio'r 'hunan arianwyr' (**SCA/002b** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/019** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn eithrio'r unigolion sydd wedi gwrthod ymyrraeth. Mae fersiwn lleol wedi ei greu sy'n eithrio'r unigolyn sydd wedi gwrthod ymyrraeth (**SCA/019** *LLEOL*) a thybir fod hyn yn rhoi gwell darlun o'r gwir sefyllfa.

**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **19 Medi 2017** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Peredur Jenkins** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18.

---

## 1. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

Adroddir yma ar gynnydd gwireddu'r arbedion sy'n Strategaeth Arbedion 2015/16 – 2017/18.

Yn Strategaeth Ariannol y flwyddyn 2016/17, roeddem wedi cynllunio £9,201,411 o arbedion, gyda £7,231,751 pellach yn Strategaeth Ariannol 2017/18.

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, ac mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid yn cadw trosolwg o'r darlun cyfan er mwyn adnabod unrhyw broblemau gyda'r drefn, neu unrhyw adran benodol.

Mae adroddiadau perfformiad yr Aelodau Cabinet unigol i gyfarfodydd y 5ed, 12fed a'r 19eg o Fedi eisoes wedi manylu ar eu cynlluniau arbedion unigol o fewn eu portffolios, fel bo angen.

## 2. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2016/17

Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion sydd wedi ei osod iddynt am y flwyddyn 2016/17, a'r sefyllfa o ran y cynlluniau hanesyddol sydd wedi llithro. O'r 144 o gynlluniau'r flwyddyn, mae 134 wedi'u gwireddu'n llawn neu yn rhannol, a disgwylir i'r swmp o'r cynlluniau sy'n weddill gael eu gwireddu yn llawn yn fuan. Mae hyn yn golygu bod 97% o arbedion 2016/17 bellach wedi cael eu gwireddu. Gwelir hefyd bod cynnydd tuag at wireddu y 5 cynllun hanesyddol a rhagwelir y bydd rheiny hefyd yn cael eu gwireddu yn fuan.

Er bod nifer o gynlluniau arbedion 2016/17 yr Adran Oedolion wedi llithro, gwelwyd cynnydd yn ystod 2016/17, a sefyllfa terfynol cyllideb yr Adran yn dangos tanwariant o £146k, fel adroddwyd i'r Cabinet ar 6 Mehefin 2017. Bellach, mae Pennaeth yr Adran Oedolion am gyflwyno adroddiad yn amlinellu ei ddymuniad i gyfuno amryw o'r cynlluniau unigol o fewn gwahanol benawdau. Byddai hyn yn cynnwys dull amgen o gofnodi budd ariannol y newidiadau sy'n deillio o weithio mewn dull mwy effeithlon. Pe bai'r cynnig yn derbyn

cymeradwyaeth, rhagwelir y gellir ystyried yn fuan y bydd swm sylweddol o'r arbedion o fewn y cynlluniau hyn wedi ei wireddu.

## 3. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2017/18

Yn yr un modd, mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r rhagolwg presennol o ran gwireddu cynlluniau ac arbedion 2017/18. O'r 120 o gynlluniau, mae 78 wedi eu gwireddu a 28 pellach ar drac i'w gwireddu yn amserol. Mae hyn yn golygu bod 64% o'r arbedion ariannol eisoes wedi eu gwireddu, a 20% pellach ar drac.

Mae'r ffigyrau "llithro" am eleni yn cynnwys yr her sylweddol yn yr Adran Oedolion. Fodd bynnag, pe bai cynnig y Pennaeth, fel cyfeiriwyd ato uchod, yn derbyn cymeradwyaeth, rhagwelir y gellir ystyried y bydd swmp yr arbedion o fewn cynlluniau 2017/18 Oedolion hefyd yn cael ei wireddu.

Mae un cynllun yn yr Adran Priffyrdd sy'n creu pryder, ond mae camau ar y gweill i ystyried modd amgen o wireddu'r arbediad hwnnw yn llawn.

## 4. CASGLIAD

Yn gyffredinol, rwy'n fodlon gyda chyrhaeddiad 2016/17, y rhagolygon o ran gwireddu'r hyn sy'n weddill, â'r rhagolygon gogyfer a 2017/18. Wrth gwrs, bydd angen i'r Aelodau Cabinet newydd barhau i fonitro'r cynlluniau arbedion ac rwy'n ymwybodol bod y gwaith yma yn mynd rhagddo. Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cynnydd calonogol tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion 2015/16 – 2017/18.

---

**Barn yr Aelod Lleol:**
Dim yn berthnasol

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

**Atodiadau:**
Atodiad 1 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2016/17 fesul adran
Atodiad 2 – Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2017/18 fesul adran

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2016/17 FESUL ADRAN** **ATODIAD 1**

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai hanesyddol (H) sydd i'w gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 94,089 (3) | 55,408 (2) | 38,681 (1) | - | Gwelwyd rhywfaint o lithriad ar un cynllun:<br>• Arbediad yn ymwneud â'r Uned Cyflogau a Chontractau Addysg £38,681.<br>Mae camau ar y gweill i wireddu yn 2017/18. |
| Ysgolion | 2,095,000 (1) | 2,095,000 (1 ) | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| Amgylchedd | 656,480 (21) | 656,480 (21) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 575,039 (16) | 575,039 (16) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 374,601 (17)<br>(H) 50,000 (1) | 321,971 (15) | 52,630 (2)<br>(H) 50,000 (1) | - | Mae dau o gynlluniau'r flwyddyn heb eu llawn wireddu:<br>• Ail gaffael y rhwydwaith PSBA £30,000 (a £50,000 hanesyddol o 2015/16)<br>• Ail strwythuro Refeniw £22,630<br>Mae'r cynllun PSBA yn destun sgwrs ar lefel genedlaethol a'r rhagolwg diweddaraf yn awgrymu'n gryf bydd yr arbedion yn cael eu gwireddu yn 2018/19. Llithriad bach a ragwelir efo'r cynllun arall. |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai hanesyddol (H) sydd i'w gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Economi | 801,283 (17) | 801,283 (17) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,559,219 (30)<br>(H) 175,060 (2) | 1,378,119 (24) | 181,100 (7*)<br>(H) 175,060 (2) | - | Ychydig o gynnydd mewn gwireddu'r cynlluniau arbedion unigol dros y misoedd diwethaf, ond yr Adran wedi byw o fewn eu cyllideb refeniw yn 2016/17. O ganlyniad i weithredu mewn modd mwy effeithlon, mae'r Pennaeth Adran wedi cynnig priodoli'r sefyllfa ariannol dderbyniol hon i'r cynlluniau arbedion unigol, ac am gyflwyno cynllun i ystyried cyfuno amryw ohonynt ar sail themâu, gan eu bod o fewn yr un meysydd. |
| Plant a Theuluoedd | 753,000 (11) | 753,000 (11) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,934,100 (20)<br>(H) 80,000 (2) | 1,934,100 (20) | (H) 80,000 (2) | - | Holl gynlluniau 2016/17 wedi'u gwireddu, ond bu llithriad ar ddau gynllun hanesyddol:<br>• Toiledau Cyhoeddus £40,000<br>• Rhesymoli Banciau Ailgylchu £40,000.<br>Mae'r cynllun Toiledau Cyhoeddus yn symud ymlaen ar y cyd efo'r cynllun toriadau (£244,000 yn 2017/18) yn unol â phenderfyniad y Cabinet ym Mehefin 2017. Mae adroddiad i ddilyn parthed y cynllun banciau ailgylchu. |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2016/17 a'r rhai hanesyddol (H) sydd i'w gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | 146,000 (4) | 146,000 (4) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | - | | - | - | Dim cynlluniau wedi eu rhaglennu yn 2016/17. |
| Trawsadrannol | 212,600 (3) | 212,600 (3) | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **9,201,411 (144)**<br>**(H) 305,060 (5)** | **8,929,000 (134)** | **272,411 (10*)**<br>**(H) 305,060 (5)** | **-** | **Mae 97% o gynlluniau arbedion 2016/17 wedi eu gwireddu, a llithriad (yn hytrach na methiant) rhagwelir efo'r gweddill.** |

(*Mae cyfran o'r cynlluniau mewn mwy nac un porth)

**ATODIAD 2**

**TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2017/18 FESUL ADRAN**

| **Adran** | **Cyfanswm Arbedion 2017/18**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau wedi eu gwireddu**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynlluniau ar trac i gyflawni'n amserol**<br><br>**£ (nifer)** | **Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro**<br><br>**£ (nifer)** | **Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu**<br><br>**£ (nifer)** | **Sylwadau'r Pennaeth Cyllid** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 417,116 (5) | 297,566 (3) | 61,250 (1) | 58,300 (1) | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu. |
| Ysgolion | 990,000 (1) | 691,010 (1) | - | - | - | £298,990 - Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 13 Rhagfyr 2016, mae rhan ysgolion uwchradd o arbedion y cynllun hwn yn cael ei bontio yn ganolog am ddwy flynedd. |
| Amgylchedd | 962,483 (25) | 817,373 (19) | 125,110 (5) | 20,000 (1) | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu ond mae angen gwneud ychydig o waith er symud y cynllun Adolygiad Rhent Manddaliadau (£20,000) ymlaen. |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 408,469 (11) | 408,469 (11) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 115,215 (9) | 34,225 (6) | 80,990 (3) | - | - | Yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu. |
| Economi | 778,208 (20) | 778,208 (20) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 1,299,000 (27) | 88,500 (5) | 594,500 (12) | 616,000 (10) | - | Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo ail-broffilio amryw o gynlluniau o'r flwyddyn yma, ond mae her gwireddu sylweddol yn parhau, gyda chanran uchel o'r cynlluniau ym mhorth 5.1 (y rhaglen cyflawni yn llithro neu fethu) neu porth 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl).<br><br>O ganlyniad i weithredu mewn modd mwy effeithlon, mae'r Pennaeth wedi priodoli arbedion i'r amrywiol gynlluniau ac am gyflwyno cynllun i ystyried cyfuno amryw ohonynt ar sail themâu. |
| Plant a Theuluoedd | 339,500 (4) | 25,000 (1) | 314,500 (3) | - | - | Cynnydd derbyniol tuag at wireddu, ond angen cofio bod amgylchiadau tu allan i reolaeth yr Adran yn gallu newid y sefyllfa yn gyflym iawn. |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 1,831,450 (13) | 1,404,450(8*) | 281,000 (4*) | 96,000 (1) | 50,000 (1) | Yn gwneud cynnydd derbyniol ac yn gweithredu ar y cynllun Toiledau Cyhoeddus (Toriadau £244,000) yn unol â phenderfyniad y Cabinet ym Mehefin 2017.<br><br>Mae ychydig o waith i'w wneud efo'r cynllun Canolfannau Ailgylchu (£96,000) i'w symud ymlaen o Borth 5.2 (wrthi'n gweithredu, ond ar ôl) i Borth 5.3 (ar drac i gyflawni'n amserol).<br><br>Mae hefyd angen darganfod modd amgen o wireddu'n llawn y cynllun Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol (£50,000). |

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2017/18<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br><br>£ (nifer) | Cynlluniau ar drac i gyflawni'n amserol<br><br>£ (nifer) | Wrthi'n gweithredu, ond yn llithro<br><br>£ (nifer) | Cynllun heb ei lawn ddatblygu neu wedi methu<br><br>£ (nifer) | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriaeth | 105,000 (4) | 105,000 (4) | - | - | - | Holl gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol | 7,000 (1) | 7,000 (1) | - | - | - | Y cynllun wedi ei wireddu. |
| **Is-gyfanswm** | **7,253,441 (120)** | **4,656,801 (79*)** | **1,457,350 (26*)** | **790,300 (14)** | **50,000 (1)** | **Mae 64% o gynlluniau'r flwyddyn wedi'u gwireddu, a 21% gydag asesiad "gwyrdd" (porth 5.3).** |
| **Llai** | | | | | | |
| Trawsadrannol | -21,690 | -21,690 | | | | Addasiad gor-gyflawni. |
| **Is-gyfanswm** | **7,231,751** | **4,656,801** | **1,457,350** | **790,300** | **50,000** | |
| Ysgolion | -298,990 | | | | | Addasiad Pontio 2 flynedd |
| **CYFANSWM** | **6,932,761** | **4,635,111** | **1,457,350** | **790,300** | **50,000** | |

(*Mae cyfran o'r cynlluniau mewn mwy nac un porth)

# BLAENRAGLEN WAITH

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| **Chwarter 3 2017/18 –**<br>**1 Hydref 2017 – 31 Rhagfyr 2017** | | |
| **3 Hydref 2017** | Cynllun Brecwast | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth | Cyng. Mair Rowlands |
| | Cynllun busnes Hunan-Wasanaeth | Cyng. Mair Rowlands |
| | Twf Economaidd Gogledd Cymru | Cyng. Dyfrig Siencyn |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet at gyfer Tai, Diwylliant a Hamdden | Cyng. Craig ab Iago |
| **24 Hydref 2017** | Datblygiad Model Amgen Hamdden | Cyng. Craig ab Iago |
| | Dyfodol Darpariaeth Addysg yn Nalgylch Y Bala | Cyng. Gareth Thomas |
| | Strategaeth Iaith Ysgolion Uwchradd Gwynedd | Cyng. Gareth Thomas |
| | Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyng. Dafydd Meurig |
| **21 Tachwedd 2017** | Cyllideb Refeniw 2017/18 – Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017) | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Rhaglen Gyfalaf 2017/18 - Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2017) | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Ail Fodelu Gwasanaeth Ieuenctid | Cyng. Craig ab Iago |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i'w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Enwebiad Safle Treftadaeth y Byd | Cyng. Ioan Thomas |
| **12 Rhagfyr** | Ad-Drefnu Ysgolion Bangor | Cyng. Gareth Thomas |
| **Chwarter 3 2017/18 –**<br>**1 Hydref – 31 Rhagfyr**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Ail Gomisiynu Darpariaeth Gofal Cartref | Cyng. W Gareth Roberts |
| **Chwarter 4 2017/18 –**<br>**1 Ionawr – 31 Mawrth** | | |
| **2 Ionawr 2018** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Amgylchedd | Cyng. Dafydd Meurig |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Addysg | Cyng. Gareth Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad y Dirprwy Arweinydd | Cyng. Mair Rowlands |
| **09 Ionawr 2018** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Plant a Chefnogi Teuluoedd | Cyng. Dilwyn Morgan |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cyng. Gareth Griffith |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid | Cyng. Peredur Jenkins |
| **16 Ionawr 2018** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Tai, Diwylliant a Hamdden | Cyng. Craig ab Iago |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Datblygu'r Economi | Cyng. Ioan Thomas |
| | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet ar gyfer Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cyng. W Gareth Roberts |
| **13 Chwefror 2018** | Cyllideb Refeniw 2017/18 – | Cyng. Peredur Jenkins |

| Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet | Eitemau i’w trafod | Aelod Cabinet |
|---|---|---|
| | Adolygiad 3ydd Chwarter | |
| | Rhaglen Gyfalaf 2017/18 – Adolygiad 3ydd Chwarter | Cyng. Peredur Jenkins |
| | Cyllideb 2018/19 a Strategaeth Ariannol 2018/19 – 2020/21 | Cyng. Peredur Jenkins |
| **Chwarter 4 2017/18 –**<br>**1 Ionawr – 31 Mawrth**<br>**Dyddiad heb ei bennu** | | |
| | Neuadd Dwyfor | Cyng. Craig ab Iago |
| | Cynllun y Cyngor | Cyng. Dyfrig Siencyn |

EITEM 8 – CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:
14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd
(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â manylion cytundeb a threfniadau gwerthiant nad yw'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried yn eithriedig yn unol â chategori 14, gan ei fod yn wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn penodol.

EITEM 9 – TIR YN LLANRUG